



Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf



Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid a Ffrindiau Ysgol y Wern,

Yn dilyn cyfarfod y Corff Llywodraethu, ddydd Llun 22 Mawrth 2021, dyma nodyn yn gofyn yn garedig ichi am eich cefnogaeth i helpu'r Ysgol i ddelio â heriau traffig a pharcio o gwmpas tir yr ysgol.

Mae tipyn o waith trefnu a rheoli wedi bod yn y misoedd diwethaf i sicrhau bod ein plant yn gallu dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n cynnwys cyrraedd y safle a gadael y safle oddi ar Heol Llangranog a Templeton Avenue .

Mae'r Ysgol yn ddiolchgar iawn ichi i gyd am eich cefnogaeth a'ch cymorth i sicrhau ein bod yn gofalu am ddiogelwch y plant a'r oedolion sy'n defnyddio'r safle.

Ond mae gennym bryderon am ddiogelwch y plant, y staff a phawb sydd yn ymweld â'r Ysgol. Mae problemau parcio a thraffig ar hyd Heol Llangranog a sawl cwyn wedi codi yn yr wythnosau diwethaf. Mae cerdded ar hyd y palmentydd yn anodd ac mae ceir yn rhwystro'r ffordd ac yn teithio'n gyflym yn agos at y safle. Hoffem ategu nodyn yr Ysgol hefyd fod Bethel Place yn dir preifat ac ni ddylid parcio yno.

Rydym yn gobeithio eich bod yn cytuno bod hyn yn effeithio ar ddiogelwch pawb. Oherwydd hyn, rydym fel Llywodraethwyr ac Ysgol yn gofyn yn garedig ichi osgoi gyrru a pharcio yn agos at safle'r ysgol sydd Heol Llangranog (gweler y map).

Mae'r problemau traffig a pharcio hyn hefyd yn poeni plant yr Ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi cynnal ymchwil ac wedi llunio llythyr i'r Cyngor yn nodi eu pryderon am eu diogelwch. Mae'n lythyr arbennig ac mae wedi'i atodi i chi ei ddarllen ac i gefnogi'r ymgyrch i gadw'r heolydd o gwmpas yr Ysgol yn ddiogel.

Mae'r Corff Llywodraethu a Mrs Kellaway fel Pennaeth hefyd wedi ysgrifennu at Gyngor Caerdydd er mwyn gallu cydweithio ar fesurau i wella'r sefyllfa yn yr hir dymor.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad er mwyn datblygu'r safle o gwmpas yr Ysgol. Byddai eich cymorth i ymateb i'r ymgynghoriad yn ddefnyddiol iawn. Gallwch wneud drwy ddilyn y ddolen hon www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/transport-projects/Consultations/Documents/March2021/Ysgol%20Y%20Wern.pdf neu fynd i wefan Cyngor Caerdydd.

Mae parcio a theithio i'r safle yn anodd iawn ac rydym yn cydnabod bod gan bawb amgylchiadau gwahanol. Er mwyn ein cynorthwyo ni fel Ysgol a chefnogi cais gan y staff a'r disgyblion gofynnwn yn garedig ichi geisio osgoi gyrru a pharcio yn agos at safle'r Ysgol ar Heol Llangranog yn ystod adegau prysur (gollwng a chasglu'r plant).

Opsiynau posibl:

- Cerdded, beicio neu fynd ar y sgwter i'r ysgol;
- Parcio ymhellach o'r ysgol (e.e Maes Parcio Wolf's Castle) a cherdded i mewn ar hyd Heol Llangranog;
- Defnyddio trafndiaeth gyhoeddus fel bws rhif 27 sy'n stopio ar ben Heol Llangranog;

Er bod y parc wrth ymyl yr ysgol ar gau ar hyn o bryd, fe fydd y gwaith sy'n cael ei wneud yno yn golygu bod gennym ragor o lwybrau cerdded diogel a maes parcio posibl ymhellach o'r ysgol. Gobeithio y bydd cyfleoedd inni ddefnyddio'r rhain yn fuan iawn (cofnod ar y map).

Rydym hefyd yn asesu posibiliadau eraill – rhagor o fanylion i ddilyn. Os oes gan unrhyw un syniadau ar gyfer datblygu cyfleoedd teithio a pharcio neu os gallwch fod o gymorth inni gyda hyn, mae croeso ichi gysylltu.

Diolch yn fawr am eich amser a'ch cefnogaeth gyson wrth inni gydweithio i ofalu am blant a chymuned Ysgol y Wern. Cadwch yn saff.

Corff Llywodraethu Ysgol y Wern



Ysgol y Wern

Anelwn am y Brig Uchaf



Dear Parents / Guardians and Friends of Ysgol y Wern,

Following the Governing Body meeting on Monday 22 March 2021, this is a letter kindly asking you for your support to help the School deal with traffic and parking challenges around the school grounds.

There has been a huge amount of organisational and management work in recent months to ensure that our children can return to school safely, including arriving on site and leaving the site off Llangranog Road and Templeton Avenue.

The School is very grateful to you all for your support and assistance in ensuring that we look after the safety of the children and adults who use the School.

However, we have concerns about the safety of the children, staff and all those who visit the School. Parking and traffic problems along Llangranog Road and several complaints have arisen in recent weeks. Walking along the pavements is difficult and cars block the road and travel quickly down the road close to the School. We would also like to reinforce the School's note that Bethel Place is private land and cars should not park there.

We hope that you agree that this affects everyone's safety. Because of this, we as Governors and the School kindly ask you to avoid driving and parking close to the school site of Llangranog Road (see map).

These traffic and parking problems also worry the children of the School. Year 6 pupils have carried out research and produced a letter to the Council setting out their concerns about their safety. It is a great letter which is attached for you to read and to support the campaign to keep the roads around the School safe.

The Governing Body and Mrs Kellaway as Headteacher have also written to Cardiff Council to enable joint working on measures to improve the situation in the long term.

The Council is currently undertaking a consultation to develop the site around the School. Your assistance in responding to the consultation would be very helpful. You can do so by following this link; www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/transport-projects/Consultations/Documents/March2021/Ysgol%20Y%20Wern.pdf or on the Cardiff Council website.

Parking around the school is very difficult and we recognise that everyone has different circumstances. In order to help us as a school and to support the request from the pupils and staff, we kindly ask you to try and avoid driving and parking close to the School site on Llangranog Road during busy times (drop off and collection times).

Possible options are;

Walking, cycling or scootering to the school

Parking further from the school (e.g. Wolf's Castle Car Park) and walking in along Llangranog Road,

Use of public transport e.g. the number 27 bus stops at the top of Llangranog Road;

Although the park adjacent to the school is currently closed, the work carried out will mean that we have more safe walking routes and a possible car park further from the school. I hope that there will be opportunities for us to use these very soon (please see map attached).

We are also assessing other possibilities – more details to follow. If anyone has ideas for developing travel and parking opportunities or if you can help us with this, please do not hesitate to get in touch.

Thank you very much for your time and support as we work together to look after the children and community of Ysgol y Wern. Stay safe.

Governing Body of Ysgol y Wern

Arolwg Teithio Blwyddyn 6

Year 6 Travel Consultation

Ysgrifennwn atoch er mwyn tynnu eich sylw at broblem ceir a cherdded o gwmpas Ysgol y Wern. Y ffaith amdani yw, dydy plant ein hysgol ddim yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar hyd Heol Llangrannog gan fod nifer o geir yn gyrru lan a lawr yr heol.

Ydych chi'n sylwi'n ddyddiol bod disgyblion yn mynd mewn ceir yn amlach, ac yn gwrthod cerdded? Credwn ni fod hyn oherwydd mae diogelwch y ffordd yn peri pryder i rieni/warchodwyr. Heb os nac oni bai, fe fyddai annog mwy o gerddwyr yn gwella safonau iechyd a diogelwch yr ysgol, ac yn gwella'n hamgylchedd sy'n llawn allyriadau carbon. Felly, ysgrifennwn atoch er mwyn nodi ein pryderon, fel disgyblion Blwyddyn 6, ac i'ch cynghori chi i gau Heol Llangrannog yn ystod oriau cyrraedd a gadael Ysgol y Wern.

Does dim dwywaith amdani, mae llawer o blant yn ein hysgol, ac ar hyn o bryd, mae'r ffyrdd yn andros o brysur. Mewn gwirionedd, mae tua 670 o ddisgyblion yn dod i'r ysgol pob dydd sydd yn ei gwneud hi'n un o ysgolion cynradd mwyaf ein prifddinas. Mewn arolwg diweddar, a gynhaliwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol, gwelwyd fod dros hanner ein blwyddyn yn dal i deithio mewn car o ddydd i ddydd. Sylwch, dim ond 32% sy'n cerdded, ond gall hyn fod oherwydd ein bod yn hŷn ac yn fwy cyfrifol. Pe bai llai o geir ar y ffordd, mae'n debyg y byddai plant yn teimlo'n fwy hyderus i gerdded neu seiclo. Yn dilyn yr arolwg teithio, fe ymchwilion ni i sut mae ein harferion teithio wedi newid ers y pandemig. Cawsom sioc wrth ddarganfod fod 30.8% wedi newid o deithio mewn car i gerdded i'r ysgol, felly mae nawr yn gyfle da i annog pawb i gerdded.

Pwynt arall yw fod pobol sydd yn gyrru yn anwybyddu cyfyngiadau cyflymder sydd ar Heol Llangrannog, sef 20 milltir yr awr. Er eich bod yn bwriadu gosod dwy groesfan sebra ni fydd hyn yn debygol o stopio y nifer o geir sy'n teithio ar yr heol. Siaradon ni gyda'n ffrindiau am ddiogelwch Heol Llangrannog ac roedd pob un disgybl yn cytuno bod Heol Llangrannog yn beryglus i ddisgyblion yr ysgol yn ystod oriau cyrraedd a gorffen yr ysgol.

Yn dilyn y cyfnod clo cyntaf (ym mis Gorffennaf) roeddech chi wedi cau Heol Llangrannog i geir ac roedd hyn wedi gwneud i bawb deimlo'n ddiogel wrth ddychwelyd i'r ysgol. Nawr mae yna mwy o blant yn dod i'r ysgol ac mae yn amhosib i gadw dwy fetr o deuluoedd eraill, heb orfod camu i fewn i'r heol. Felly, rydyn ni'n meddwl fod angen i chi gau Heol Llangrannog yn ystod yr amseroedd gollwng a chasglu.

Yn wir, rydym wedi cael llond bol. Mae gennym ni yr hawl i fod yn ddiogel. Mae Erthygl 19 yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn dweud 'Ddylech chi ddim cael eich niweidio a ddylech dderbyn gofal a chael eich cadw'n ddiogel'. Yn sicr, byddai cau'r heol am gyfnod yn ein diogelu ac ein gwarchod rhag niwed. Mae'n gyfrifoldeb arnom i wneud rhywbeth am y mater.

Gobeithio y byddwch yn ddigon caredig i ystyried y cais pwysig yma.

Yn gywir,

Blwyddyn 6 Ysgol y Wern

Dear Sir/Madam,

We write to you to draw your attention to the immense problem of cars driving along Llangrannog Rd. The fact is that the children of our school don't presently feel safe when walking along Llangrannog Rd due to the vast number of cars driving up and down the road.

We strongly believe that due to the roads being full of cars there is no safe way to walk along Llangrannog Rd. It is true to say that the current situation is a cause of concern for parents/carers if their child is walking to or from school, especially if doing so on their own. Without a doubt, encouraging more people to walk would improve health and safety as well as the environment. We all know that cars release carbon emissions into the atmosphere. Therefore, we write to you to note our worries, as Year 6 students, and to advise you to close Llangrannog Rd during the drop off and collection hours of our school.

There's no doubt about it, there are lots of children in our school and at this point in time, the roads are filled with cars. In fact, around 670 pupils come to school every day which makes us one of the biggest primary schools in Cardiff. During a recent survey, Year 6 pupils discovered that over half the year group still travel in a car to school every day. Only 32% walk but if Llangrannog Rd was closed, it's very likely that children would feel more confident to walk or cycle. Following the travel survey, we researched into how our means of travel has changed since the pandemic. Interestingly, 30.8% have converted from travelling to school in a car to walking. Surely this is an ideal opportunity to inspire everyone to walk.

Another point is that most of the people driving ignore the current speed limit of 20 miles per hour on Llangrannog Rd. Even though it is the Council's intention to place two zebra crossings we do not think that this will be enough to deter cars from the road. Following discussions with other pupils we strongly believe that, at present, it is dangerous during drop off and collection times.

Following the first lockdown (July 2020) Llangrannog Rd was closed to cars. This made everyone feel safe when returning to school. Now, there are more children than ever in school, consequently it is impossible for everybody to keep 2 metres apart without stepping onto the road. We strongly think that you should consider closing Llangrannog Rd during drop off and collection times in order to keep our school community safe.

We have the right to be safe and we are determined that every child has this right. According to Article 19 of the United Nations Convention on the Rights of the Child 'You should not be harmed, you should be looked after and kept safe'. Certainly, closing the road for a period of time would protect and guard us from harm. Surely you must agree with this.


To conclude, we hope that you will consider this important request.

Yours faithfully,

Year 6 Ysgol y Wern

Siartiau Cylch- Pie Charts

Sut mae disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol y Wern fel arfer yn teithio i'r ysgol?



Siart i ddangos sut mae arferion teithio disgyblion Blwyddyn 6 wedi newid ers y pandemig.



Ardaloedd coch i'w hosgoi. Mae ardal oren yn brysur felly ceisiwch eu hosgoi.
Red areas to be avoided, Amber areas can be congested, please avoid where possible.

Mynedfa cerddwyr / pedestrian access from Templeton Av

Mynedfa cerddwyr i'r parc / Pedestrian access to the park

Maes parcio a mynediad cerbyd i'r parc / Car park and vehicle access to the park

